# PWYLLGOR ARCHWILIO PARTNERIAETHAU

Cofnodion cyfarfod o’r Pwyllgor Archwilio Partneriaethau a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Iau, 22 Mehefin 2017 am 9.30 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Joan Butterfield, Jeanette Chamberlain-Jones (Cadeirydd), Gareth Davies, Tony Flynn, Huw Jones, Pat Jones, Christine Marston, Andrew Thomas, Rhys Thomas a Huw Williams

**Aelod Cabinet Arweiniol -** Roedd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill yn bresennol ar gyfer eitem 6

**Yn Arsylwi -** y Cynghorwyr Meirick Davies, Arwel Roberts, Emrys Wynne a Mark Young

## HEFYD YN BRESENNOL

Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cymunedau (NS), Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (GB), Rheolwr Gwarchod Y Cyhoedd (EJ), Pennaeth Gwasanaethau Cefnogaeth Gymunedol (PG), Swyddog Comisiynu (CW), Cydlynydd Archwilio (RE) a Gweinyddydd y Pwyllgor (KEJ)

## 1 YMDDIHEURIADAU

Y Cynghorydd Melvyn Mile

Yr Aelod Cabinet Arweiniol – y Cynghorydd Bobby Feeley.

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad personol na chysylltiad sy'n rhagfarnu.

## 3 PENODI IS-GADEIRYDD

O ystyried nad oedd aelodaeth y Cabinet yn derfynol eto ac y byddai'n debygol o gael goblygiadau o ran aelodaeth pwyllgorau archwilio, awgrymwyd gohirio penodi Is-Gadeirydd.

***PENDERFYNWYD –*** *gohirio penodi Is Gadeirydd y Pwyllgor tan y cyfarfod nesaf.*

## 4 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni chodwyd unrhyw fater brys.

## 5 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio Partneriaethau a gynhaliwyd ar 6 Ebrill 2017.

***PENDERFYNWYD*** *y dylid cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Ebrill, 2017 fel cofnod cywir.*

## 6 PARTNERIAETH TELEDU CYLCH CAEËDIG SIR DDINBYCH

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Perfformiad Cyllid ac Asedau Strategol yr adroddiad ac atodiad cyfrinachol (a ddosbarthwyd yn flaenorol) a brifiodd y Pwyllgor ynghylch y cefndir i benderfyniad y Cyngor i dynnu'n ôl o ddarparu ei wasanaeth TCC a throsglwyddo darpariaeth y gwasanaeth i Bartneriaeth TCC Sir Ddinbych.

Cadarnhaodd y Cynghorydd Thompson-Hill -

- er bod y Cydlynydd TCC llawn amser yn cael ei gyflogi gan y Cyngor, roedd y swydd yn cael ei hariannu gan y Bartneriaeth
- er gwaetha'r ffaith nad oedd y delweddau'n cael eu monitro 24 awr y dydd, ni fu cynnydd amlwg mewn achosion o drosedd ac anrhefn.
- tra bo'r Bwrdd Partneriaeth TCC, a oedd yn goruchwylio gwaith y Bartneriaeth wrth ddarparu'r gwasanaeth TCC, yn fodlon gyda'r gwasanaeth a ddarparwyd, cydnabu nad oedd y trefniadau ar gyfer darparu'r gwasanaeth cyfredol yn gynaliadwy yn y tymor hir oherwydd oed y gweinydd TGCh a'r gofynion cynnal a chadw camera.
- roedd y Bwrdd wedi archwilio nifer o fodelau darparu posibl ar gyfer y gwasanaeth. Ar ôl ystyried sawl opsiwn gwahanol, cytunwyd dechrau gweithio gyda Chyngor Gorllewin Sir Gaer a Chaer er mwyn iddyn nhw ymgymryd â'r gwaith o reoli'r gwasanaeth o ddydd i ddydd yn y dyfodol.

Gan ymateb i gwestiynau'r aelodau, bu i'r Aelod Arweiniol, Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd a'r Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd -

- amlinellu cost y gwasanaeth TCC pan oedd y Cyngor yn ei weithredu a'r penderfyniad a gymerwyd fel rhan o'r ymarfer cyllideb Rhyddid a Hyblygrwydd i dynnu yn ôl o'i ddarparu gan nad oedd yn wasanaeth statudol.
- Fodd bynnag, roedd y Cyngor yn cydnabod pwysigrwydd y gwasanaeth ac felly cytunwyd gweithio gyda'r holl bartneriaid a oedd yn fodlon cydweithio i ddarparu gwasanaeth TCC. Cynghorwyd er nad oedd Cyngor Sir Ddinbych bellach yn cyfrannu'n gorfforaethol tuag at gost y Gwasanaeth TCC, nid oedd gwasanaethau penodol o fewn y Cyngor yn cyfrannu swm ariannol e.e. Gwasanaethau Parcio, Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd.
- cadarnhaodd bod y Bartneriaeth TCC yn darparu gwasanaeth camera TCC gofod cyhoeddus sefydlog i drefi Prestatyn, Rhuddlan a'r Rhyl. Roedd gan drefi sirol eraill eu trefniadau preifat eu hunain ar gyfer gwasanaethau TCC
- cynghorwyd fod gan yr Heddlu TCC symudol a oedd yn cael eu defnyddio mewn mannau lle mae trosedd ac anrhefn yn fynych. Roedd gan y Cyngor hefyd gamera symudol a allai gofnodi delweddau, ond nid oedd yn bwydo'r llun i'r ystafell reoli
- eglurwyd y fformwla arfaethedig ar gyfer pob un o'r tair tref (yn yr atodiad cyfrinachol) ar gyfer darparu Gwasanaeth TCC oddi wrth y Bartneriaeth a oedd yn cynnwys isafswm sicr o gamerâu ar gyfer pob un o'r trefi. Roedd yr

adroddiad hefyd yn cynnwys y cytundeb cynnal a chadw arfaethedig ar gyfer y camerâu a oedd eisoes yn eu lle a'r camau a fyddai'n cael eu cymryd pan fyddai unrhyw gamera'n diffygio neu'n dod i ben ei fywyd trwsiadwy.

- pwysleisiwyd o dan y cytundeb newydd y byddai sicrwydd ar yr isafswm o gamerâu ym mhob tref ar unrhyw un adeg, er y byddai'r nifer o gamerâu sy'n effro ym Mhrestatyn a'r Rhyl yn sylweddol uwch na'r isafswm sicr. Byddai swm a gyfrannwyd gan bob cyngor tref yn sicrhau'r isafswm o gamerâu gweithredol
- bod Heddlu Gogledd Cymru yn cyfrannu £16k at y gwasanaethau TCC sir gyfan ar draws y rhanbarth
- cadarnhawyd bod y Bwrdd Partneriaeth TCC wedi ystyried pump gweithredwr posibl ar gyfer darparu gwasanaeth, gan gynnwys awdurdodau eraill yng Ngogledd Cymru. Fodd bynnag, ar ôl gwerthuso'r bidiau ac ymweld â holl ystafelloedd rheoli'r gweithredwyr er mwyn asesu'r math o wasanaeth y gellid ei ddarparu, daeth i'r amlwg bod y gwasanaeth y gallai CWCC ei gynnig yn y tymor hir yn llawer gwell. Roeddent eisoes yn gweithio'n agos gyda Heddlu Gogledd Cymru a gallent ddarparu'r Bartneriaeth gyda gwasanaeth monitro adweithiol, 24 awr, 7 diwrnod o'r wythnos, a oedd yn fwy na'r hyn yr oedd y Bartneriaeth yn ddarparu ei hun ar hyn o bryd.
- dywedwyd byddai'r contract cynnal a chadw cyfredol gyda chwmni i wasanaethu a thrwsio camerâu yn parhau. Pan a phryd y credwyd y byddai camera wedi dod i ddiwedd ei oes trwsiadwy, byddai penderfyniad yn cael ei wneud, yn seiliedig ar asesiad risg, i amnewid y camera ai peidio gydag un o ardal risg isel.
- cadarnhawyd bod Heddlu Gogledd Cymru a gwasanaethau Cynghorau unigol i gyd wedi ymrwymo i gyfrannu'r swm gofynnol tuag at y gwasanaeth am hyd y cyfnod contract. Gofynnwyd i'r tri chyngor tref hefyd wneud yr un ymrwymiad, gan y byddai hyn yn diogelu dyfodol y gwasanaeth am gyfnod y contract gyda CWCC. Unwaith byddai'r holl bartïon wedi cytuno, byddai Cytundeb Lefel Gwasanaeth yn cael ei lunio a fyddai'n ymrwymo'r holl bartneriaid i gyfrannu'n ariannol i'r Gwasanaeth am gyfnod penodol.
- cynghorwyd nad oedd y posibilrwydd o brydlesu camerâu TCC gofod cyhoeddus yn opsiwn. Gwnaed ymholiadau mewn perthynas â hyn ond roedd cwmnïau gweithgynhyrchu camerâu wedi cynghori nad prydlesu fyddai'r opsiwn gorau
- cadarnhawyd, unwaith byddai'r gwasanaeth gyda CWCC wedi cael ei sefydlu, byddai ymholiadau'n cael eu gwneud gyda chynghorau dinas, tref a chymuned eraill yn y sir ynghylch a fyddai diddordeb ganddynt mewn ymuno a chyfrannu tuag at waith y Bartneriaeth. Gellid hefyd edrych ar ddichonoldeb caniatáu busnesau unigol i gyfrannu tuag at y system.

Yn ei rinwedd fel Cynghorydd Tref Rhuddlan ac aelod o Fwrdd Partneriaeth TCC, cadarnhaodd y Cynghorydd Arwel Roberts ei fod wedi bod yn rhan o'r broses werthuso ar gyfer y gwasanaeth newydd arfaethedig. Roedd yn llwyr gefnogol o'r ymagwedd tymor hir ar gyfer darparu'r Gwasanaeth ac roedd yn teimlo byddai'r opsiwn CWCC yn diogelu'r gwasanaeth ar gyfer y dyfodol.

Er bod y Bwrdd Partneriaeth TCC wedi cytuno mewn egwyddor i fynd i gytundeb â CWCC, nid oedd dyddiad dechrau i'r contract wedi cael ei gytuno eto. Rhagwelwyd byddai'r gwasanaeth newydd yn dechrau cyn diwedd y flwyddyn galendr gyfredol. Felly -

***PENDERFYNODD Y PWYLLGOR** yn amodol ar y sylwadau uchod -*

*(a) i gefnogi rôl y Cyngor o fewn y Bartneriaeth;*

*(b) parhau i gefnogi i gadw'r Bartneriaeth, a*

*(c) Bod adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor mewn deuddeg mis yn manylu ar y cynnydd a wnaed gyda sefydlu'r trefniadau newydd rhwng Partneriaeth TCC Sir Ddinbych a Cyngor Gorllewin Sir Gaer a Chaer (CWCC), ei effeithlonrwydd o ran darparu Gwasanaeth TCC ar gyfer ardal gogledd Sir Ddinbych ac amlinellu unrhyw opsiynau posibl sydd ar gael ar gyfer ymestyn y gwasanaeth i rannau eraill o'r sir.*

## 7 STRATEGAETH GOFLAWYR SIR DDINBYCH 2016-19

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Cefnogaeth Gymunedol a'r Swyddog Comisiynu ar gyfer Gofalwyr yr adroddiad, Cynllun Gweithredu a'r Asesiad Effaith Lles (a ddosbarthwyd yn flaenorol). Yn eu cyflwyniad dywedont wrth aelodau bod Gwasanaeth Gwybodaeth Gofalwyr Gogledd Ddwyrain Cymru (NEWCIS) wedi cael hysbysiad yn ddiweddar eu bod wedi bod yn llwyddiannus yn eu bid am arian Loteri. Roedd hyn yn newyddion da ar gyfer gofalwyr yn Sir Ddinbych gan y byddai NEWCIS yn gallu cynnig seibiant ar gyfer gofalwyr yng nghynllun tai gofal ychwanegol y sir. Mewn perthynas â chamau a oedd yn cofrestru fel 'coch' o hyd ar y cynllun gweithredu, roedd cais llwyddiannus NEWCIS yn cynnwys ariannu ar gyfer elfen gwasanaethau cwnsela ar gyfer gofalwyr, tra byddai trafodaethau ar fabwysiadu'r model Cynhadledd Teulu ar gyfer sefyllfaoedd o fewn y gwasanaethau oedolion bellach yn dechrau ym mis Ionawr 2018.

Mewn ymateb i gwestiynau gan yr Aelodau, dywedodd y swyddogion:-

- roedd swyddogion a phartneriaid yn gwneud eu gorau i hyrwyddo'r gwasanaethau sydd ar gael i'r holl ofalwyr o fewn y sir h.y. cafodd staff Pwynt Mynediad Sengl a Pwynt Siarad hyfforddiant i nodi problemau ac anghenion gofalwyr ac i godi eu hymwybyddiaeth o'r gwasanaethau sydd ar gael i'w cefnogi, sefydliadau trydydd sector a gomisiynwyd gan y Cyngor ac ymwelodd y Bwrdd Iechyd â gwahanol allfeydd gan gynnwys archfarchnadoedd a meddygfeydd ac ati i godi ymwybyddiaeth a hyrwyddo gwasanaethau ar gyfer gofalwyr
- tynnwyd sylw'r aelodau at sioeau teithiol i ofalwyr a digwyddiadau hyrwyddo yn rheolaidd a byddent yn parhau i gael eu cyhoeddi felly, gan fod croeso i gynghorwyr fynychu
- nid yw bob unigolyn yn gweld eu hunain fel gofalwyr, yn enwedig o fewn sefyllfaoedd teuluol. Maent yn tueddu i weld dyletswyddau gofalu fel rhan annatod o'u perthnasau.
- mae gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014 ffocws penodol ar ofalwyr, hyrwyddo annibyniaeth a sut byddai awdurdodau lleol yn cefnogi gwasanaethau a anelir ar fagu gwytnwch ymysg cymunedau
- roedd y Cyngor yn ymwybodol bod yna tua 3000 o ofalwyr yn gofyn cymorth yn Sir Ddinbych. Fodd bynnag, rhagamcanwyd i'r ffigwr hwn fod tua traean o wir nifer y gofalwyr yn y sir

- rhagamcanwyd bod tua 8% o blant dan 18 mlwydd oed yn Sir Ddinbych yn ofalwyr
- nid oedd yr holl ofalwyr eisiau cymorth ffurfiol oddi wrth y Cyngor na sefydliadau eraill  Er enghraifft, roedd gofalwyr mewn ardaloedd gwledig yn tueddu i fod yn wydn iawn ac yn cael cefnogaeth oddi wrth eu cymunedau
- roedd budd-daliadau heb eu hawlio yn faes cymhleth, tra bo gwerth ariannol ‘budd-daliadau heb eu hawlio’ yn Sir Ddinbych, fel yr adroddwyd yn y cyfryngau, yn ymddangos yn gymharol uchel. Roedd y rheolau yn ymwneud â hawliadau aelwydydd a budd-daliadau gorgyffyrddol yn golygu na allai unigolion hawlio’r holl fudd-daliadau yr oedd ganddynt hawl iddynt.    Roedd Cyngor Ar Bopeth Sir Ddinbych wedi darparu cyngor budd-daliadau ar ran y Cyngor ac wedi datblygu agwedd gyfannol tuag at y cyngor budd-daliadau, gyda'r bwriad o sicrhau gallai aelwydydd hawlio'r uchafswm hawliad a ganiateir.
- roedd y Gwasanaeth Pwynt Mynediad Sengl a’r CAB yn hynod ragweithiol wrth gyfeirio gofalwyr at wasanaethau a allai fod ar gael iddynt; gan gynnwys atgyfeirio ar gyfer gwiriadau budd-dal
- roedd y sgwrs ‘Beth sy’n Bwysig’ a gafodd staff gofal cymdeithasol gyda defnyddwyr gwasanaeth hefyd yn erfyn defnyddiol i adnabod gofalwyr a’u cyfeirio at y gefnogaeth bosibl sydd ar gael
- roedd peth o’r gwaith estyn allan a wnaed i gefnogi gofalwyr ifanc ar draws y sir yn cynnwys mynd â grŵp ohonynt i ddefnyddio’r cyfleusterau Gwasanaethau Hamdden.   Ymgymerodd y Swyddog Comisiynu ar gyfer Gwasanaethau Gofalwyr i drafod gyda’r Gwasanaethau Plant a'r Gwasanaethau Hamdden ynghylch dichonolrwydd cyflwyno cardiau Canolfan Hamdden ar gyfer gofalwyr ifanc i’w defnyddio yn eu hamser eu hunain fel rhan o’r gefnogaeth a ddarparwyd iddynt.
- byddai Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru ar gyfer iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn cynnal adolygiad o'r gwaith a wnaed yn y blynyddoedd diweddar, a'i ariannu trwy'r nawdd trosiannol a ddyrannwyd am flynyddoedd ariannol 2016-17 a 2017-18, er mwyn gwerthuso'r deilliannau a’u defnyddio fel sylfaen ar gyfer Cynllun busnes Rhanbarthol newydd ar gyfer gwasanaethau gofalwyr o fis Ebrill 2018 ymlaen.

Cydnabu’r swyddogion tra bod llawer o waith yn cael ei wneud i gefnogi gofalwyr ar draws y sir, ni allai’r Cyngor fod yn foddog.  Byddai’n parhau i weithio gydag eraill i ddatblygu gwasanaethau ar gyfer gofalwyr o bob oed.  Ar ddiwedd y drafodaeth -

***PENDERFYNODD Y PWYLLGOR*** *yn amodol ar y sylwadau uchod -*

*(a)* *Cadarnhau sut y mae partneriaid yn Sir Ddinbych yn parhau i weithio gyda'i gilydd i ddatblygu cefnogaeth i Ofalwyr yn Sir Ddinbych, mewn cyd-destun o gynnydd mewn galw, deddfwriaeth newydd a newidiadau demograffig;*

*(b)* *parhau i gefnogi a hyrwyddo cyflawniadau'r Strategaeth Gofalwyr er mwyn i Wasanaeth Cymorth Cymunedol Sir Ddinbych ddiwallu ei oblygiadau statudol ar gyfer Gofalwyr, mewn partneriaeth â phartneriaid statudol a thrydydd sector.*

*(c)* *cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o’r Effaith ar Les (Atodiad 3) fel rhan o’i ystyriaethau;*

(d) *Gofyn bod swyddogion yn trefnu digwyddiad hyfforddi ar 'ofal cymdeithasol' ar gyfer yr holl gynghorwyr, gan gynnwys ymweliad i'r sefydliadau gofal cymdeithasol megis llety Gofal Ychwanegol, a*

(e) *bod adroddiad cynnydd ar weithredu'r Cynllun Gweithredu Strategaeth Gofalwyr 2016-17 yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr 2017.*

**8 ADRODDIAD BLYNYDDOL CYFARWYDDWR Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL 2016/17**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cymunedau, yn ei rhinwedd fel Cyfarwyddwr Strategol Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor Adroddiad Blynyddol 2016-17 drafft y Cyfarwyddwr. Soniodd bod yr adroddiad, a oedd yn crynhoi ei gwerthusiad o effeithlonrwydd y Gwasanaethau yn ystod y flwyddyn flaenorol ac yn amlygu'r blaenoriaethau ar gyfer gwella yn ystod y flwyddyn gyfredol, yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor ar gyfer ei sylwadau ar ei gynnwys cyn ei gyflwyno i'r rheoleiddiwr, Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru erbyn y terfyn amser statudol. Wrth gyflwyno'r adroddiad, dywedodd y Cyfarwyddwr wrth aelodau'r Pwyllgor yn dilyn ei gwerthusiad o'r gwasanaethau a ddarparwyd gan y gwasanaethau oedolion a gofal cymdeithasol, ei bod wedi dod i'r canlyniad bod y gwasanaethau a ddarparwyd yn effeithiol yn y ddau sector. Fodd bynnag, byddai yna wastad lle ar gyfer gwelliant a byddai yna wastad heriau newydd i'w taclo, felly ni fyddai lle i fod yn foddog.

Wrth ymateb i gwestiynau'r Aelodau ar gynnwys yr adroddiad, dywedodd y Cyfarwyddwr -

- bod y mater o ddigartrefedd yn cael ei drin o dan ddeddfwriaeth benodol tra bo tai, gan gynnwys tai cymdeithasol yn cael ei lywodraethu gan wahanol fframweithiau deddfwriaethol.
- Roedd swyddogion yn gobeithio dod â'r Strategaeth Digartrefedd newydd gerbron aelodau pan fyddai ar gael, a chadarnhawyd bod y gwasanaeth Pwynt Mynediad Sengl gan mwyaf yn wasanaeth cyfeirio dros y ffôn ar gyfer gwasanaethau eraill. Darparwyd gwasanaethau wyneb yn wyneb trwy'r fenter Pwyntiau Siarad. Roedd y gwasanaethau Pwyntiau Siarad ar gael mewn gwahanol leoliadau o gwmpas y sir ac roeddent yn cael eu hysbysebu ar wefan y Cyngor ac mewn lleoliadau cymunedol. Os nad oedd person yn gallu mynychu digwyddiad Pwynt Siarad, gellid trefnu ymweliad, ond yn anffodus nid oedd gan y Cyngor ddigon o adnoddau i drefnu ymweliadau cartref fel mater o raid
- Roedd Pwyntiau Siarad yn ffordd effeithiol o gyfathrebu gyda phreswylwyr a thynnu gwasanaethau i'w sylw gan fod ganddynt fynediad at ystod eang o arbenigwyr proffesiynol i gynorthwyo gyda'r sgwrs 'Beth sy'n Bwysig' gyda phreswylwyr
- gwnaed penderfyniadau ynghylch cynnal ymweliadau cartref â defnyddwyr gwasanaeth neu ddarpar ddefnyddwyr gwasanaeth yn seiliedig ar farn arbenigol broffesiynol.

Estynnodd y Pwyllgor eu llongyfarchiadau i'r Cyfarwyddwr a'r Gwasanaeth ar eu hymateb cadarnhaol a rhagweithiol i'r Safonau Cymraeg newydd a'r fframwaith Mwy Na Geiriau. Roedd yr aelodau o'r farn y dylid canmol mabwysiadu'r ymagwedd 'Cynnig Gweithredol'. Canmolodd yr aelodau hefyd ansawdd y ddarpariaeth gwasanaeth gofal cymdeithasol ar gyfer plant yn y sir.

Yn dilyn ystyried yr adroddiad a'r ymatebion a gafwyd i'r cwestiynau a ofynnwyd yn y Pwyllgor -

***PENDERFYNWYD –***

*(a) Fod yn rhoi disgrifiad clir o berfformiad y Gwasanaeth yn 2016/17, a;*

*(b) Bod sesiwn briffio'r Cyngor yn cael ei drefnu ar gyfer yr holl gynghorwyr sir ynghylch materion tai, yr un llwybr mynediad at dai (SARTH), digartref a digartrefedd.*

**9 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO**

Cyflwynodd y Cydlynydd Archwilio adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) yn gofyn i'r Aelodau adolygu Rhaglen Waith y Pwyllgor a rhoi diweddariad ar faterion perthnasol.

Yn ystod y drafodaeth a ddilynodd -

- mewn ymateb i awgrymiadau ar gyfer eitemau posibl i'w harchwilio yn y dyfodol, eglurodd y Cydlynydd Archwilio'r broses gyfredol a thynnodd sylw at y ffurflen cynnig aelodau i'w llenwi a'i chyflwyno i'r Grŵp Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion.
- Cytunwyd gwahodd yr Aelodau Cabinet Arweiniol perthnasol i gyfarfodydd pwyllgor yn y dyfodol i drafod eitemau busnes sy'n berthnasol i'w portffolios
- ystyriwyd a thrafodwyd enwebiadau ar gyfer penodi i'r Grwpiau Herio Gwasanaeth a'r Grŵp Buddsoddi Strategol.

***PENDERFYNWYD –***

*(a) Yn amodol ar ychwanegu'r eitemau y cytunwyd arnynt yn ystod y cyfarfod, cymeradwyo'r rhaglen waith i'r dyfodol fel y manylir yn Atodiad 1 yr adroddiad;*

*(b) penodi'r aelodau canlynol fel cynrychiolwyr y pwyllgor ar y Grwpiau Herio Gwasanaeth -*

*Gwasanaethau Addysg a Phlant – y Cynghorydd Rhys Thomas*
*Gwasanaethau Cefnogi Cymunedol - Cynghorydd Jeanette Chamberlain-Jones*
*Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd – Y Cynghorydd Christine Marston, a*

(c) *Bod y Cydlynydd Archwilio yn e-bostio holl aelodau'r pwyllgor yn gofyn am ddatganiadau o ddiddordeb am y swyddi gwag sy'n weddill ac i roi ystyriaeth bellach i'r mater yn y cyfarfod nesaf.*

Daeth y cyfarfod i ben am 12.40pm.